



David Rees AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

SeneddMADY@cynulliad.cymru

15 Tachwedd 2018

Annwyl David

Ysgrifennaf atoch mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 9 Tachwedd, yn dilyn sesiwn y Pwyllgor ar 5 Tachwedd.

Fel y dywedais wrth y Pwyllgor, er mai nifer cyfyngedig o gymalau Bil yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael) yr ydym wedi eu gweld, rwy'n disgwyl y bydd y Bil yn cwmpasu meysydd lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli i Lywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru, ac o ganlyniad bydd angen cydsyniad deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol.

Wrth ochr y Cytundeb Ymadael mae'r datganiad gwleidyddol yn gosod canlyniad y negodiadau presennol ar delerau perthynas y DU â 27 gwlad yr UE yn y dyfodol. Er nad yw'r datganiad gwleidyddol ar ffurf testun cyfreithiol, mae'n cwmpasu nifer o faterion mewn meysydd lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli. Mae'r datganiad gwleidyddol hefyd yn cwmpasu materion hanfodol bwysig gan gynnwys ein perthynas economaidd yn y dyfodol â'n partner masnachu mwyaf, a fydd â goblygiadau pwysig i bobl Cymru. O ganlyniad, mae gennym fwriad pendant i gynnal pleidlais hefyd ar y cytundeb ehangach gyda 27 gwlad yr UE. Rwy'n bwriadu i'r bleidlais hon yn y Cynulliad Cenedlaethol gael ei chynnal cyn y bleidlais "ystyrion" yn Nhŷ'r Cyffredin.

Er y llwyddwyd i gytuno ar y Cytundeb Ymadael, bydd rhaid i hyn gael ei gymeradwyo gan 27 gwlad yr UE yng nghyfarfod y Cyngor Ewropeaidd cyn hir. Gan fod ansicrwydd yn parhau, nid yw'n bosib rhoi manylion pendant ar hyn o bryd ynghylch amseriad trafodaethau yn y Cynulliad Cenedlaethol. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad Cenedlaethol ar y cynnydd yn y negodiadau, ynghyd ag amserlen a natur y trafodaethau a fydd yn dilyn.

Yn gywir

CARWYN JONES

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.